## Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

# Cannllaw Cynllun Byr

## Canllaw Cryno i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)







lgps look forward with confidence

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

www.gwentpensionfund.co.uk

**Ebrill 2023**

# Cynnwys


Y CPLIL YNG NGHYMRU A LLOEGR

**Cefndir**
- Pa fath o gynllun ydyw?
- Pwy all ymuno?
- Sut ydw i'n sicrhau fy mod wedi dod yn aelod o'r CPLIL?
- Alla i adael y CPLIL ac ailymuno ar ddyddiad hwyrach?
- Faint fydda i'n ei dalu?
- Ydy fy nghyflogwr yn cyfrannu?
- Oes modd i mi dalu mwy i wella fy muddion?
- A allaf dalu llai i'r CPLIL?
- Oes modd i mi drosglwyddo buddion pensiwn i'r CPLIL?

**Ymddeoliad**
- Pryd gallaf ymddeol?
- Beth yw fy muddion ymddeol CPLIL?
- Alla i ymddeol yn gynnar?
- A oes unrhyw gosbau am ymddeol a derbyn buddion pensiwn ar unwaith?
- Beth os ydw i eisoes yn derbyn pensiwn CPLIL ac rwyf wedi cael fy ail-gyflogi?
- Beth os bydd fy nghyflogwr yn fy ymddeol ar sail diswyddo neu effeithlonrwydd busnes?
- Beth sy'n digwydd os bydd yn rhaid i mi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch?
- Beth os ydw i am ymddeol yn raddol?
- Beth os byddaf yn parhau i weithio ar ôl fy OPA?

**Y Buddion**
- Sut mae fy mhensiwn yn cael ei gyfrifo?
- Cyfnewid rhan o'ch pensiwn am gyfandaliad di-dreth
- Beth yw'r opsiynau ynghylch fy Nghyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)?
- Beth pe bawn i wedi ymuno â'r CPLIL cyn 1 Ebrill 2014?
- Pa dâl a ddefnyddir i gyfrifo fy muddion cyflog terfynol?
- A fydd fy mhensiwn yn cynyddu yn ystod fy ymddeoliad?

**Diogelwch ar gyfer eich teulu**
- Pa fuddion a delir os byddaf yn marw?

**Ymadawyr nad oes ganddynt hawl uniongyrchol i fuddion**

Ad-dalu Cyfraniadau
Buddion gohiriedig
A allaf drosglwyddo fy muddion i rywle arall?
A allaf drosglwyddo fy muddion i rywle arall?
Trosglwyddo'ch buddion i gynllun cyfraniadau diffiniedig
Beth yw'r opsiynau o ran fy nghynllun CGY mewnol?

**Help gyda Phroblemau Pensiwn**
Pwy all fy helpu os oes gennyf ymholiad neu gŵyn?
Gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol (IDRP)
The Pensions Advisory Service (TPAS)
Yr Ombwdsmon Pensiynau (OP)
Y Rheolydd Pensiynau (RhP)
Sut gallaf olrhain fy hawliau pensiwn?

# Y CPLlL yng Nghymru a Lloegr

# Cefndir

Dyma ddisgrifiad byr o amodau aelodaeth a phrif fuddion y cynllun sy'n berthnasol os ydych yn cyfrannu i'r CPLlL ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022.

## Pa fath o gynllun ydyw?

Mae'r CPLlL yn gynllun pensiwn galwedigaethol, yn dreth gymeradwyedig, ddiffiniedig a sefydlwyd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae buddion y cynllun yn seiliedig ar eich Cyfartaledd Cyflog Gyrfa Wedi'i Adbrisio (CARE) o 1 Ebrill 2014. Mae'n ddiogel iawn oherwydd fe drefnir y buddion yn y gyfraith.

## Pwy all ymuno?

Mae'r CPLlL yn cynnwys Llywodraeth Leol a sefydliadau eraill sydd wedi dewis cyfranogi ynddo. Cewch eich cynnwys yn y cynllun yn awtomatig os oes gennych gontract cyflogaeth am o leiaf 3 mis ac rydych dan 75 oed. Fel arall, os oes gennych gontract cyflogaeth o lai na 3 mis ond rydych dan 75 oed, NI fyddwch yn cael eich cynnwys yn y cynllun yn awtomatig, ond cewch y dewis i ymuno gan eich cyflogwr. Os ydych yn Swyddog Heddlu, yn Ddiffoddwr Tân neu'n Athro ni chaniateir i chi ymuno â'r CPLlL.

## Sut ydw i'n sicrhau fy mod wedi dod yn aelod o'r CPLlL?

Er mwyn sicrhau eich hawl i fuddion y cynllun, mae'n bwysig eich bod yn llenwi ac yn dychwelyd y ffurflenni ymuno. Ar ôl derbyn y ffurflenni hyn, caiff cofnodion perthnasol eu sefydlu a bydd hysbysiad swyddogol o'ch aelodaeth o'r CPLlL yn cael ei anfon atoch. Dylech hefyd wirio'ch slip cyflog i sicrhau bod cyfraniadau pensiwn yn cael eu didynnu.

## Alla i adael y CPLlL ac ailymuno ar ddyddiad hwyrach?

Gallwch adael y CPLlL ar unrhyw adeg drwy ofyn am ffurflen tynnu'n ôl gan yr Is-adran Bensiynau a'i dychwelyd i'ch cyflogwr. Efallai y bydd gennych hawl i ad-daliad o gyfraniadau os ydych yn gadael y cynllun o fewn 2 flynedd o ymuno. Os byddwch yn dewis tynnu'n ôl, gallwch ailymuno â'r cynllun ar unrhyw adeg, ar yr amod eich bod dan 75 oed. Fodd bynnag, eich cyflogwr fydd yn gyfrifol am eich cynnwys yn y CPLlL unwaith eto dan ofynion Cofrestru Awtomatig. Yna, bydd gennych yr opsiwn i dynnu'n ôl o'r cynllun eto. Efallai yr hoffech ofyn am Gyngor Ariannol Annibynnol cyn i chi wneud penderfyniad i dynnu'n ôl o'r CPLlL.

Sylwer NA ddylech gwblhau datganiad tynnu'n ôl cyn i'ch cyflogaeth ddechrau.

## Faint fydda i'n ei dalu?

Mae cyfradd eich cyfraniadau'n dibynnu ar eich cyflog, ond bydd rhwng 5.5% a 12.5% o'ch tâl pensiynadwy. Bydd y gyfradd y byddwch chi'n ei thalu'n dibynnu ar eich band cyflog.

Dyma'r Bandiau Cyfraniadau o **1 Ebrill 2022.**

| **Tâl Pensiynadwy Blynyddol:** | **Cyfradd Cyfraniadau:** |
|---|---|
| Hyd at £16,500 | 5.5% |
| £16,501 to £25,900 | 5.8% |
| £25,901 to £42,100 | 6.5% |
| £42,101 to £53,300 | 6.8% |
| £53,301 to £74,700 | 8.5% |
| £74,701 to £105,900 | 9.9% |
| £105,901 to £124,800 | 10.5% |
| £124,801 to £187,200 | 11.4% |
| Dros £187,201 | 12.5% |

Fel aelod o'r CPLlL, cewch rhyddhad ar eich cyfraniadau ar yr adeg y cânt eu didynnu o'ch cyflog. Mae cyfyngiadau ar swm y rhyddhad treth sydd ar gael ar gyfraniadau pensiwn. Os bydd gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu mewn unrhyw flwyddyn o fwy na'r lwfans blynyddol o £40,000, efallai y bydd rhaid i chi dalu tâl treth. Ni fydd y lwfans blynyddol yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl.

## Ydy fy nghyflogwr yn cyfrannu?

Mae eich cyflogwr yn talu gweddill y gost o darparu eich buddion yn y CPLlL. Bob 3 blynedd, caiff adolygiad annibynnol ei gynnal i gyfrifo faint y dylai eich cyflogwr ei gyfrannu at y Cynllun. Sylwer, yn y dyfodol efallai y bydd angen rhannu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y gost o ddarparu'r cynllun rhwng aelodau a chyflogwyr yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

## Oes modd i mi dalu mwy i wella fy muddion?

Gallwch dalu cyfraniadau pensiwn ychwanegol dan y CPLlL i gynyddu eich buddion ymddeol.
Gallwch wneud hyn naill ai drwy dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) i brynu pensiwn CPLlL ychwanegol neu drwy wneud taliadau i drefniant Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) y cynllun. I gael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau hyn, cysylltwch â'r Adran Bensiwn.

## A allaf dalu llai i'r CPLlL?

Gallwch ddewis talu hanner eich cyfraniad arferol i dderbyn hanner lefel y pensiwn yn gyfnewid am y cyfnod hwn. Fodd bynnag, byddwch yn cadw'r ddarpariaeth lawn o ran yswiriant salwch a marwolaeth yn ystod y cyfnod hwn. Os hoffech ymuno ag **is-adran**

**50/50** y cynllun, bydd angen i chi ofyn am **ffurflen ymuno** gan eich cyflogwr.  Pan fyddwch am ailymuno â'r **brif is-adran**, bydd angen i chi lenwi ffurflen ymuno arall.

## Oes modd i mi drosglwyddo buddion pensiwn i'r CPLlL?

Gellir trosglwyddo buddion yr ydych eisoes wedi'u cronni yn y CPLlL neu mewn trefniadau pensiwn eraill i'r CPLlL.  Rhaid dewis yr opsiwn i drosglwyddo o fewn 12 mis i ymuno neu unrhyw gyfnod hwy y mae eich cyflogwr yn ei ganiatáu.  I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch cyflogwr.

# Ymddeoliad

I dderbyn buddion ymddeol CPLlL, mae'n rhaid bod gennych o leiaf 2 flynedd o aelodaeth, neu wedi trosglwyddo hawliau pensiwn eraill i'r CPLlL neu fod gennych fuddion gohiriedig yn y CPLlL yng Nghymru a Lloegr.

## Pryd gallaf ymddeol?

Gallwch ymddeol a derbyn eich buddion CPLlL yn llawn unwaith y byddwch wedi cyrraedd eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA), sy'n gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW) ac a allai newid yn y dyfodol.  Fodd bynnag, mae'r Cynllun hefyd yn gwneud darpariaethau ar gyfer talu eich buddion CPLlL yn gynnar.

## Beth yw fy muddion ymddeol CPLlL?

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn derbyn pensiwn blynyddol ynghyd â'r opsiwn i gymryd rhan o'ch pensiwn fel cyfandaliad di-dreth.  Os gwnaethoch ymuno â'r CPLlL cyn 1 Ebrill 2008, bydd eich pecyn buddion safonol yn cynnwys cyfandaliad di-dreth awtomatig, fel y disgrifir yn yr **Adran Buddion.**

## Alla i ymddeol yn gynnar?

Gallwch ddewis ymddeol yn wirfoddol a chael eich buddion CPLlL ar unrhyw oedran o 55 i 75 oed, ond efallai y caiff eich buddion eu lleihau'n actiwaraidd er mwyn ystyried taliad cynnar cyn eich OPA.

## A oes unrhyw gosbau am ymddeol a derbyn buddion pensiwn ar unwaith?

Os byddwch yn ymddeol o'ch gwirfodd cyn eich OPA, bydd eich buddion CPLlL yn cael eu lleihau i ystyried eu taliad cynnar a'r ffaith y bydd eich pensiwn yn daladwy am fwy o amser.  Fodd bynnag, os gwnaethoch ymuno â'r CPLlL ar neu cyn 30 Medi 2006, efallai eich bod wedi'ch amddiffyn rhag y gostyngiad posib i rai o'ch buddion neu'ch holl fuddion.

Os byddwch yn ymddeol o'ch gwirfodd cyn eich OPA neu'n ymddeol ar neu ar ôl eich OPA, gallwch ohirio derbyn eich buddion, ond rhaid i chi eu derbyn cyn cyrraedd 75 oed. Os ydych yn derbyn eich pensiwn ar ôl eich OPA, telir eich buddion ar gyfradd uwch i adlewyrchu'r taliad hwyr.

## Beth os ydw i eisoes yn derbyn pensiwn CPLIL ac rwyf wedi cael fy ail-gyflogi?

Os byddwch yn cael eich ail-gyflogi o fewn Llywodraeth Leol neu gan gyflogwr sy'n cynnig aelodaeth o'r CPLIL i chi, rhaid i chi ddweud wrth y Gronfa Bensiwn sy'n talu eich pensiwn eich bod wedi cael eich ail-gyflogi, p'un a ydych am ymuno â'r cynllun ai peidio. Yna, bydd gwiriad yn cael ei wneud i weld a fydd eich pensiwn yn cael ei leihau neu ei atal hyd yn oed.

## Beth os bydd fy nghyflogwr yn fy ymddeol ar sail diswyddo neu effeithlonrwydd busnes?

Os ydych yn 55 oed neu'n hŷn, bydd gennych hawl ar unwaith i daliad o'ch buddion yn syth, heb ei leihau.

## Beth sy'n digwydd os bydd yn rhaid i mi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch?

Os oes rhaid i chi adael gwaith ar unrhyw oedran oherwydd salwch parhaol, y mae'n rhaid i ffisegydd iechyd galwedigaethol annibynnol sy'n cael ei benodi gan eich cyflogwr ei ardystio, mae'r cynllun yn darparu pecyn ymddeol salwch haenog. Gallai hyn roi buddion i chi sy'n cael eu talu ar unwaith, ac y gellid eu cynyddu os ydych yn annhebygol o allu ymgymryd â chyflogaeth daledig o fewn 3 blynedd o adael.

Diffinnir gwaith cyflogedig fel cyflogaeth â thâl am o leiaf 30 awr yr wythnos am gyfnod o o leiaf 12 mis.

## Beth os ydw i am ymddeol yn raddol?

Gelwir hyn yn ymddeoliad hyblyg. O 55 oed, os byddwch yn lleihau eich oriau neu'n symud i swydd nad yw'n swydd uwch, ac ar yr amod bod eich cyflogwr yn cytuno, gallwch dderbyn rhai, neu'r cyfan o'r buddion pensiwn yr ydych wedi'u cronni – gan eich helpu i ymddeol yn raddol. Os byddwch yn ymddeol yn hyblyg cyn eich OPA, gellir lleihau eich buddion er mwyn ystyried eu taliad cynnar, oni bai fod eich cyflogwr yn cytuno i hepgor y gostyngiad yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Gallwch barhau i dalu i mewn i'r CPLIL ar eich oriau llai neu yn eich rôl newydd, gan ychwanegu rhagor o fuddion at y Cynllun. Mae ymddeoliad hyblyg yn ôl disgresiwn eich cyflogwr a rhaid iddo nodi ei bolisi ar hyn mewn datganiad cyhoeddedig.

## Beth os byddaf yn parhau i weithio ar ôl fy OPA?

Os ydych yn parhau i weithio ar ôl cyrraedd eich OPA, byddwch yn parhau i dalu i'r cynllun a chronni rhagor o fuddion. Byddwn yn talu eich pensiwn pan fyddwch yn ymddeol neu pan fyddwch yn cyrraedd noswyl eich pen-blwydd yn 75 oed, neu os byddwch yn ymddeol yn hyblyg gyda chaniatâd eich cyflogwr, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Os byddwch yn derbyn arian o'ch pensiwn ar ôl eich OPA bydd yn cael ei gynyddu i adlewyrchu'r ffaith y caiff ei dalu am gyfnod byrrach. Mae'n rhaid talu'ch pensiwn ar y diwrnod cyn eich pen-blwydd yn 75 oed.

# Y Buddion

## Sut mae fy mhensiwn yn cael ei gyfrifo?

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn derbyn pensiwn blynyddol cysylltiedig wedi'i fynegeio sy'n daladwy am eich oes, ynghyd â'r opsiwn i gyfnewid rhan o'ch pensiwn (yn amodol ar derfynau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) am gyfandaliad di-dreth sy'n daladwy pan fyddwch yn derbyn eich buddion.

Bob blwyddyn, byddwch yn cronni pensiwn sy'n gyfwerth ag 1/49 o'r tâl pensiynadwy yr ydych wedi'i dderbyn yn y flwyddyn gynllun honno (o 1 Ebrill i 31 Mawrth). Eich tâl pensiynadwy yw swm y tâl rydych yn talu'ch cyfraniadau pensiwn arno. Os ydych wedi dewis ymuno â rhan 50/50 y cynllun, bydd y gyfradd sy'n berthnasol i'ch pensiwn yn hanner y gyfradd hon, h.y. 1/98 o'ch tâl pensiynadwy.

Mae'r pensiwn rydych yn ei gronni bob blwyddyn o 1 Ebrill tan 31 Mawrth yna'n cael ei ychwanegu at eich cyfrif pensiwn a chaiff ei ailbrisio yn unol â'r mynegai cost byw briodol bob mis Ebrill. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y cyfrifir eich pensiwn.

**Enghraifft**

Rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth **(Cynllun Blwyddyn 1)**, aseswyd mai £15,000 yw tâl pensiynadwy Siân. Cyfrifwyd y pensiwn a ychwanegwyd at ei chyfrif pensiwn ar gyfer eleni fel a ganlyn:

1/49 x £15,000 = **£306.12**

Ar ôl ychwanegu £306.12 at ei chyfrif pensiwn, caiff ei ailbrisio i ystyried cynnydd tybiedig o 2% mewn chwyddiant (£306.12 + 2% = **£312.24**).
Yn ystod **Blwyddyn 2** y Cynllun, aseswyd mai £15,150 oedd tâl pensiynadwy Siân:

1/49 x £15,150 = **£309.18**

Ychwanegir £309.18 at ei chyfrif pensiwn (£312.24 + £309.18 = **£621.42**). Yna caiff ei chyfrif ei ailbrisio i ystyried cynnydd tybiedig o 2.5% mewn chwyddiant. Gwerth ei chyfrif pensiwn ar ôl Blwyddyn 2 y Cynllun yw **£636.96.** Fodd bynnag, pe bai Siân wedi dewis cyfrannu at adran 50/50 y cynllun drwy gydol Blwyddyn 1 y Cynllun, byddai ei phensiwn wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

1/98 x £15,000 = **£153.06** (+ cynnydd tybiedig o 2% mewn chwyddiant = **£156.12**).

Sylwch ar y gwahaniaeth ym mhensiwn Siân **yn cronni** tra'n cyfrannu at Adran 50/50 y Cynllun (£312.24 yn llai £156.12 = **£156.12**).

Cyfnewid rhan o'ch pensiwn am gyfandaliad di-dreth

O dan reolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, gallwch gyfnewid rhan o'ch pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth untro. Gallwch gymryd hyd at 25% o werth cyfalaf eich

buddion pensiwn fel cyfandaliad, drwy gyfnewid £1 o bensiwn am £12 o gyfandaliad ( ar yr amod nad yw cyfanswm y cyfandaliad yn fwy na £268,275, llai gwerth unrhyw hawliau pensiwn eraill sydd gennych mewn taliad).

## Beth yw'r opsiynau ynghylch fy Nghyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)?

Os byddwch yn cyfrannu at drefniant cyfraniad gwirfoddol ychwanegol (CGY) dan y CPLlL, bydd gennych wahanol opsiynau o ran ei dalu. I gael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau hyn, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.

## Beth pe bawn i wedi ymuno â'r CPLlL cyn 1 Ebrill 2014?

Newidiodd y CPLlL o fod yn gynllun cyflog terfynol i gynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa Wedi'i Adbrisio (CARE) ar 1 Ebrill 2014. Fodd bynnag, os gwnaethoch ymuno â'r cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2014, byddwch hefyd wedi cronni buddion yn y cynllun cyflog terfynol a fydd yn parhau i fod yn seiliedig ar eich **cyflog terfynol** pan fyddwch yn gadael y cynllun neu'n dewis ymddeol.

Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd hyd at 31 Mawrth 2008, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n gyfwerth ag 1/80 o'ch cyflog terfynol, ynghyd â chyfandaliad di-dreth awtomatig o 3 gwaith gwerth y pensiwn hwn. Mae'r cyfrifiad hwn hefyd yn seiliedig ar eich aelodaeth o'r cynllun, sydd wedi'i rhannu os ydych yn gweithio'n rhan-amser. Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, byddwch yn derbyn pensiwn sy'n hafal i 1/60 o'ch cyflog terfynol, ond HEB unrhyw hawl i gyfandaliad di-dreth awtomatig. Fodd bynnag, bydd gennych yr opsiwn i gyfnewid rhan o'ch pensiwn am gyfandaliad di-dreth pan fyddwch yn ymddeol (fel y disgrifir ar y dudalen flaenorol).

Os ydych yn eu hychwanegu at eich buddion CARE, bydd hyn wedyn yn rhoi cyfanswm gwerth eich buddion CPLlL i chi. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y cyfrifir eich buddion cyflog terfynol.

**Enghraifft**

Mae Siân wedi bod yn aelod o'r cynllun am 10 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2008 a 6 blynedd o 1 Ebrill 2008 nes 31 Mawrth 2014. Mae hi bob amser wedi gweithio'n llawn amser ac mae ei thâl terfynol wedi'i gyfrifo fel £15,000.

Cyfrifir ei buddion cyflog terfynol fel a ganlyn:

<u>Aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008:</u>
10 mlynedd x 1/80 x £15,000 = £1,875 Pensiwn Blynyddol
10 mlynedd x 3/80 x £15,000 = £5,625 Cyfandaliad awtomatig heb dreth

<u>Aelodaeth o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014:</u>
6 blynedd x 1/60 x £15,000 = £1,500 Pensiwn Blynyddol
*DIM hawl i gyfandaliad di-dreth awtomatig.*

Cyfanswm gwerth y buddion Cyflog Terfynol:
£1,875 + £1,500 = £3,375 Pensiwn Blynyddol
£5,625 Cyfandaliad di-dreth awtomatig

Pa dâl a ddefnyddir i gyfrifo fy muddion cyflog terfynol?

Fel arfer, cyfrifir eich buddion cyflog terfynol yn ôl cyflog pensiynadwy cyfwerth ag amser llawn eich blwyddyn olaf (o dan ddiffiniad 2008) pan fyddwch yn ymddeol. Fodd bynnag, gellir cyfrifo'ch buddion ar un o'r ddwy flynedd flaenorol os yw'n uwch, neu os caiff eich cyflog ei leihau neu ei gyfyngu yn eich 10 mlynedd olaf o gyflogaeth barhaus gyda'ch cyflogwr, mae gennych yr opsiwn i seilio eich buddion cyflog terfynol ar gyfartaledd tâl unrhyw 3 blynedd yn olynol yn ystod y 13 mlynedd diwethaf (gan ddod i ben ar 31 Mawrth). I wneud y dewis hwn, bydd angen i chi ysgrifennu at yr Adran Bensiwn 1 mis cyn gadael fan bellaf.

## A fydd fy mhensiwn yn cynyddu yn ystod fy ymddeoliad?

Mae'r CPLIL yn darparu codiadau pensiwn statudol. Mae hyn yn golygu, os byddwch yn ymddeol yn 55 oed neu ar ôl hynny, y bydd eich pensiwn yn cael ei gynyddu bob blwyddyn yn unol â'r mynegai costau byw priodol. Cynyddir pensiynau salwch bob blwyddyn yn unol â'r mynegai costau byw priodol ni waeth beth yw'ch oedran.

# Diogelwch ar gyfer eich teulu

## Pa fuddion a delir os byddaf yn marw?

Os byddwch yn marw mewn gwasanaeth fel aelod o'r CPLIL, mae'r buddion a ddangosir isod yn daladwy.

- Cyfandaliad **grant marwolaeth** o 3 blynedd o gyflog. Os ydych yn gweithio'n rhan-amser, mae'n 3 blynedd o gyflog rhan-amser. Os ydych wedi lleihau eich oriau o ganlyniad i gyflwr neu salwch sydd, ym marn y meddyg iechyd galwedigaethol annibynnol, yn arwain at eich marwolaeth; anwybyddir y gostyngiad yn eich oriau wrth gyfrifo'r tâl sydd i'w ddefnyddio ar gyfer y cyfandaliad grant marwolaeth ac wrth gyfrifo unrhyw bensiwn goroeswr sy'n daladwy i'ch priod, eich partner sifil cofrestredig neu bartner cymwys sy'n cyd-fyw gyda chi.

- Mae **pensiwn goroeswr** yn daladwy'n awtomatig naill ai i'ch priod, eich partner sifil cofrestredig neu, yn amodol ar amodau cymhwyso penodol, eich partner cymwys sy'n cyd-fyw gyda chi. Mae'r pensiwn yn daladwy yn syth ar ôl eich marwolaeth am eu hoes a bydd yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r mynegai costau byw priodol.

  Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd o 1 Ebrill 2014 hyd at ddyddiad eich marwolaeth, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn gyfwerth ag 1/160 o'ch cyflog pensiynadwy wedi'i luosi gyda'ch aelodaeth yn y cynllun ar ôl 31 Mawrth 2014; ynghyd â 49/160 o swm unrhyw bensiwn a gredydwyd i'ch cyfrif pensiwn ar ôl trosglwyddo hawliau pensiwn (os yw'n berthnasol; yn ogystal â phensiwn cyfwerth ag 1/160 o'ch tâl pensiynadwy rhagdybiedig ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth y byddech wedi'i chronni o ddyddiad eich marwolaeth i'ch OPA.

- Pensiynau i **blant cymwys.**

Os byddwch yn marw ar ôl eich ymddeoliad, mae pensiwn goroeswr yn daladwy'n awtomatig i'ch priod, eich partner sifil cofrestredig neu, yn amodol ar amodau cymwys penodol, eich partner cymwys sy'n cyd-fyd gyda chi ac unrhyw blant cymwys sydd gennych. Mae grant marwolaeth yn daladwy os y talwyd llai na 10 mlynedd o bensiwn i chi a'ch bod dan 75 oed ar ddyddiad y farwolaeth, ac os felly telir y balans o bensiwn 10 mlynedd fel cyfandaliad. Mae'r CPLIL hefyd yn caniatáu i chi ddweud at bwy yr hoffech i unrhyw grant marwolaeth gael ei dalu drwy lenwi ffurflen Mynegiad o Ddymuniad, sydd ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae awdurdod gweinyddu'r Cynllun yn cadw disgresiwn llwyr wrth benderfynu i bwy i dalu unrhyw grant marwolaeth.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd eich partner sy'n cyd-fyw gyda chi neu gyfrifo pensiwn plentyn, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.

# Ymadawyr nad oes ganddynt hawl uniongyrchol i fuddion

## Ad-dalu Cyfraniadau

Os byddwch yn gadael y CPLlL gyda llai na 2 flynedd o aelodaeth, nad ydych wedi dod â throsglwyddiad i'r CPLlL ac nad oes gennych fudd gohiriedig eisoes yn y CPLlL yng Nghymru neu Loegr, gallwch ad-dalu eich cyfraniadau, gan ystyried unrhyw ddidyniadau am dreth (a'r gost o'ch prynu'n ôl i Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P), os yw'n berthnasol).

## Buddion gohiriedig

Os byddwch yn gadael y CPLlL cyn eich OPA a bod cyfanswm eich aelodaeth yn 2 flynedd neu fwy, neu os ydych wedi trosglwyddo hawliau pensiwn eraill i'r CPLlL, neu os oes gennych fudd gohiriedig yn y CPLlL yng Nghymru neu Loegr eisoes, bydd gennych hawl i gael buddion gohiriedig o fewn y CPLlL. Caiff eich buddion CPLlL gohiriedig eu cyfrifo fel a ddisgrifir yn yr adran **Buddion.** Yn ystod y cyfnod gohirio, bydd eich buddion pensiwn yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r mynegai costau byw priodol.

Oni bai eich bod yn penderfynu trosglwyddo'ch buddion gohiriedig i drefniant pensiwn arall, byddant fel arfer yn cael eu talu ar eich OPA, ond:

- gellir eu talu'n gynharach, ac yn llawn os na allwch ymgymryd â'r swydd yr oeddech yn ei gwneud pan wnaethoch adael y CPLlL oherwydd salwch, a bod gennych lai o debygolrwydd o allu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd i wneud cais am y budd neu erbyn eich OPA, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf; neu os dymunwch, gallwch ddewis derbyn eich buddion gohiriedig yn gynnar o 55 oed ymlaen; neu

- gallwch, os dymunwch, ddewis peidio â derbyn eich buddion gohiriedig ar eich OPA a gohirio eu derbyb nes yn ddiweddarach (er bod yn rhaid eu derbyn erbyn 75 oed).

Gellir lleihau buddion a delir yn gynnar, ac eithrio ar sail salwch parhaol, er mwyn ystyried eu taliad cynnar a'r ffaith y telir eich pensiwn am gyfnod hwy. I'r gwrthwyneb, caiff buddion a delir ar ôl eich OPA eu cynyddu i adlewyrchu'r taliad hwyr.

Os byddwch yn marw cyn i'ch buddion gohiriedig gael eu talu, telir cyfandaliad o grant marwolaeth sy'n hafal i 5 mlynedd o bensiwn. Mae'r CPLlL yn eich caniatáu i nodi pwy yr hoffech i unrhyw grant marwolaeth gael ei dalu iddo drwy lenwi ffurflen Mynegiad o Ddymuniad, sydd ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae awdurdod gweinyddu'r Cynllun yn cadw disgresiwn llwyr wrth benderfynu pwy fydd yn derbyn unrhyw grant marwolaeth.

Mae pensiwn goroeswr yn daladwy'n awtomatig i briod, partner sifil cofrestredig neu, yn amodol ar amodau cymhwyso penodol, eich partner cymwys sy'n cyd-fyw gyda chi ac unrhyw blant cymwys sydd gennych. Mae'r pensiwn yn daladwy yn syth ar ôl eich marwolaeth am eu hoes a bydd yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r mynegai costau byw priodol.

Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd o 1 Ebrill 2014, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn gyfwerth ag 1/160 o'ch tâl pensiynadwy y cyfrifwyd eich pensiwn gohiriedig arno wedi'i luosi â'ch

aelodaeth yn y cynllun ar ôl 31 Mawrth 2014; ynghyd â 49/160 o swm unrhyw bensiwn a gredydwyd i'ch cyfrif pensiwn ar ôl trosglwyddo hawliau pensiwn.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd eich partner sy'n cyd-fyw gyda chi neu gyfrifo pensiwn plentyn, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.

## A allaf drosglwyddo fy muddion i rywle arall?

Os byddwch yn gadael y cynllun ac mae gennych hawl i fuddion gohiriedig neu ad-daliad, fel arfer gallwch drosglwyddo swm arian parod sy'n cyfateb i'ch buddion pensiwn i drefniant pensiwn arall neu gynllun pensiwn cyflogwr newydd. Gall hyn fod yn gynllun pensiwn dramor hyd yn oed, neu'n drefniad sy'n bodloni amodau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi Ni allwch drosglwyddo eich buddion os ydych yn gadael gyda llai na 3 mis o aelodaeth neu (ac eithrio mewn perthynas â CYG os byddwch yn gadael llai na blwyddyn cyn eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA). Rhaid i opsiwn i drosglwyddo (ac eithrio mewn perthynas â CYG) gael ei gwneud o leiaf 12 mis cyn eich OPA.

Bydd angen dyfynbris gwerth trosglwyddo ar eich darparwr pensiwn newydd y bydd eich cronfa bensiwn, o dan y darpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 1995, yn ei warantu am gyfnod o dri mis o ddyddiad y cyfrifiad.

## A allaf drosglwyddo fy muddion i rywle arall?

Fel arall, os byddwch yn dychwelyd i gyflogaeth gyda chyflogwr sy'n cymryd rhan yn y CPLlL ac yn ailymuno â'r CPLlL ar ôl adeiladu hawliau pensiwn CPLlL yn flaenorol (h.y. gwnaethoch adael swydd CPLlL yn flaenorol gyda buddion gohiriedig) yna bydd y buddion gohiriedig hyn fel arfer yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cyfrif pensiwn gweithredol ar gyfer eich swydd newydd, oni bai eich bod yn dewis eu cadw ar wahân.  Ar gyfer buddion sy'n cael eu trosglwyddo'n awtomatig fel arfer, os ydych yn dymuno cadw eich buddion gohiriedig ar wahân, rhaid i chi ddewis gwneud hynny o fewn 12 mis i ail-ymuno â'r CPLlL, oni bai fod eich cyflogwr yn caniatáu mwy o amser i chi. Os byddwch yn ailymuno â'r CPLlL ar ôl gadael cyflogaeth CPLlL yn flaenorol ac heb adeiladu hawliau pensiwn, ond rydych wedi gohirio cymryd ad-daliad o gyfraniadau (fel arfer lle mae gennych lai na dwy flynedd o aelodaeth), **rhaid** uno'r ad-daliad gohiriedig hwn â'ch cyfrif pensiwn gweithredol newydd yn y cynllun.

### Trosglwyddo'ch buddion i gynllun cyfraniadau diffiniedig

Cyflwynwyd buddion hyblyg gan y Llywodraeth o 6 Ebrill 2015 i ganiatáu mwy o ryddid i aelodau cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, sydd dros 55 oed, o ran sut y maent yn cymryd arian o'u pot pensiwn.

Nid yw'r CPLlL yn gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig (cynllun buddion diffiniedig ydyw) ac felly, nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol arno. Fodd bynnag, os byddwch yn rhoi'r gorau i dalu i mewn i'r CPLlL a bod gennych dri mis neu fwy o aelodau, yna oni bai eich bod yn ymddeol ar unwaith oherwydd diswyddo, effeithlonrwydd busnes neu salwch, bydd gennych yr hawl i drosglwyddo eich pensiwn CPLlL i gynllun cyfraniadau diffiniedig sy'n darparu manteision hyblyg.

Sylwer, yn ôl y gyfraith, y bydd yn ofynnol o chi gael cyngor ariannol annibynnol os yw gwerth eich buddion pensiwn yn y CPLlL (ac eithrio CYG) yn fwy na £30,000. Nid yw'n ofynnol i chi gael cyngor ariannol annibynnol os yw gwerth eich buddion yn llai na £30,000. Fodd bynnag, nid yw trosglwyddo'ch hawliau pensiwn bob amser yn benderfyniad hawdd i'w wneud a gallai gofyn am gymorth gan ymgynghorydd ariannol annibynnol cyn i chi wneud penderfyniad i drosglwyddo eich helpu i wneud penderfyniad priodol.

Mae pedwar prif opsiwn ar gyfer aelodau 55 oed a throsodd sydd mewn cynllun cyfraniadau diffiniedig sy'n cynnig buddion hyblyg, gan gynnwys:

- prynu blwydd-dal
- lleihad incwm hyblyg
- cymryd nifer o symiau arian parod ar wahanol gamau
- cymryd yr holl gronfa fel arian parod mewn un taliad

Os ydych yn aelod gohiriedig o'r Credyd Pensiwn, mae'r CPLlL yn caniatáu trosglwyddo eich hawliau a ddiogelwyd, ar yr amod eich bod yn dewis y  Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) o leiaf 12 mis cyn eich OPA ac nad ydych eisoes yn derbyn pensiwn o Gredyd Pensiwn arall yn y cynllun.

## Beth yw'r opsiynau o ran fy nghynllun CGY mewnol?

Ni allwch gael pensiwn tynnu i lawr o'ch CGY fel opsiwn cynllun; gallwch gael pensiwn tynnu i lawr o'ch CGY os ydych yn trosglwyddo'ch cynllun CGY i gynllun sy'n caniatáu tynnu i lawr. Nid oes opsiwn yn y CPLlL i chi gymryd cyfandaliad o arian bensiwn nad yw wedi cael ei ddefnyddio eto (UFPLS) o'ch CGY; gallwch ddefnyddio'r opsiwn UFPLS drwy drosglwyddo eich cynllun CGY i gynllun sy'n caniatáu UFPLS. Gallwch ddefnyddio'ch CGY i brynu un blwydd-dal neu fwy, cymryd cyfandaliad cychwyn pensiwn, ac mewn rhai amgylchiadau, prynu aelodaeth ychwanegol yn y CPLlL a/neu brynu ychwanegiad at bensiwn CPLlL. I gael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau hyn, cysylltwch â'r Adran Bensiynau.

Mae'r CPLlL yn caniatáu trosglwyddo hawliau CGY cronedig ar yr amod eich bod wedi rhoi'r gorau i dalu CGY ac nid oes unrhyw ddigwyddiad o dynnu'ch pensiwn wedi digwydd mewn perthynas â buddion CGY y CPLlL yng Nghymru a Lloegr. Noder mai ystyr digwyddiad o dynnu'ch pensiwn at y diben hwn yw talu pensiwn neu flwydd-dal sy'n deillio o CGY. Yn ogystal, os oes gennych fwy nag un cynllun CGY, rhaid i chi eu trosglwyddo i gyd, hyd yn oed os yw'r cynlluniau CGY hynny mewn gwahanol gronfeydd CPLlL. Nid yw'r CPLlL ei hun yn rhoi unrhyw gost ar aelod sy'n arfer hawl i drosglwyddo (ond gallai'r darparwr CGY wneud addasiad i werth cronfa'r CGY).

# Help gyda Phroblemau Pensiwn

## Pwy all fy helpu os oes gennyf ymholiad neu gŵyn?

Os oes gennych unrhyw amheuon am eich hawliau buddion neu os oes gennych broblem neu gwestiwn am aelodaeth neu fuddion eich CPLIL, cysylltwch â'r Adran Bensiwn yn y cyfeiriad a ddangosir ar ddiwedd y canllaw hwn. Byddant yn ceisio egluro neu gywiro unrhyw gamddealltwriaeth neu gamgymeriadau cyn gynted, ac mor effeithlon â phosib. Os yw eich ymholiad yn ymwneud â'ch cyfradd gyfrannu, cysylltwch ag adran Adnoddau Dynol/Cyflogres eich cyflogwr er mwyn iddynt allu egluro sut y maent wedi cyfrifo eich cyfradd gyfrannu.

Os ydych yn anfodlon o hyd ag unrhyw benderfyniad a wneir mewn perthynas â'r cynllun, mae gennych hawl i adolygu eich cwyn yn annibynnol o dan y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol, a gan fod y cynllun wedi'i reoleiddio'n dda, mae nifer o gyrff rheoleiddio eraill hefyd a allai eich cynorthwyo. Manylir ar y gweithdrefnau a'r cyrff amrywiol isod.

## Gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol (IDRP)

Yn y lle cyntaf, dylech ysgrifennu at y person a enwebwyd gan y corff a wnaeth y penderfyniad yr ydych am apelio yn ei gylch. Rhaid i chi wneud hyn o fewn **6 mis** i ddyddiad yr hysbysiad o'r penderfyniad neu'r weithred neu'r anwaith yr ydych yn cwyno yn ei gylch, neu unrhyw gyfnod hwy y gall y person enwebedig ei ganiatáu. Bydd y person enwebedig yn ystyried eich cwyn ac yn rhoi gwybod i chi am ei benderfyniad. Os ydych yn anfodlon â phenderfyniad y person hwnnw (neu os yw'n methu â gwneud penderfyniad), gallwch wneud cais i awdurdod gweinyddu'r cynllun i'w ailystyried.

## Y Gwasanaeth Ymgynghori ar Bensiynau (TPAS)

Os oes gennych geisiadau cyffredinol am wybodaeth neu arweiniad ynghylch eich trefniadau pensiwn, cysylltwch â:

Chyfeiriad: **Helpwr Arian, 120 Holborn, London, EC1N 2TD**
Ffôn: **0800 011 3797**
Gwefan: **www.moneyhelper.org.uk/cy**

## Yr Ombwdsmon Pensiynau (OP)

Mae gennych hawl i gyfeirio eich cwyn i'r Ombwdsmon Pensiynau yn rhad ac am ddim. Mae'r Ombwdsmon Pensiynau yn ymdrin â chwynion ac anghydfodau sy'n ymwneud â gweinyddu a/neu reoli cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol.

Mae angen cysylltu â'r Ombwdsmon Pensiynau ynghylch cwyn o fewn **tair blynedd** i'r adeg y digwyddodd y digwyddiad(au) yr ydych yn cwyno amdanynt – neu, os yn ddiweddarach, o fewn **tair blynedd** i'r adeg pan oeddech yn gwybod amdano gyntaf (neu y dylech fod wedi gwybod amdano). Defnyddir disgresiwn wrth benderfynu a fydd cyfyngiadau amser yn cael eu hestyn.

Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon Pensiynau yn:

Cyfeiriad: **10 South Colonnade, Canary Wharf, Llundain, E14 4PU**
Ffôn: **0800 917 4487**
E-bost: **enquiries@pensions-ombudsman.org.uk**
Gwefan: **www.pensions-ombudsman.org.uk**

## Y Rheolydd Pensiynau (RhP)

Dyma reolydd y cynlluniau pensiwn sy'n seiliedig ar waith. Mae gan y Rheolydd Pensiynau bwerau i amddiffyn aelodau cynlluniau pensiwn sy'n seiliedig ar waith ac ystod eang o bwerau i helpu i gywiro problemau, lle bo angen. Mewn achosion eithafol, gall y Rheolydd ddirwyo ymddiriedolwyr neu gyflogwyr a thynnu ymddiriedolwyr allan o gynllun.

Gallwch gysylltu â'r Rheolydd Pensiynau yn:

Cyfeiriad: **Napier House, Trafalgar Place, Brighton, BN1 4DW**
Rhif ffôn: **0345 600 7060**
Gwefan: **www.thepensionsregulator.gov.uk/cy**

## Sut gallaf olrhain fy hawliau pensiwn?

Mae gan y Gwasanaeth Olrhain Pensiynau fanylion cynlluniau pensiwn, gan gynnwys y CPLlL, ynghyd â chyfeiriadau cyswllt perthnasol. Mae'n darparu gwasanaeth olrhain ar gyfer cyn-aelodau cynlluniau sydd â hawliau pensiwn (a'u dibynyddion), sydd wedi colli cysylltiad â chynlluniau blaenorol. Rhaid i bob cynllun pensiwn galwedigaethol a phersonol gofrestru os oes gan y cynllun pensiwn aelodau cyfredol sy'n cyfrannu at ei gynllun neu bobl sy'n disgwyl buddion o'r cynllun.
Os oes angen i chi ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain hwn, ysgrifennwch at:

Cyfeiriad:
**The Pension Service 9, Mail Handling Site A, Wolverhampton, WV98 1LU**
Rhif ffôn: **0800 731 0193**
Gwefan: **www.gov.uk/find-pension-contact-details**

Hefyd, cofiwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch darparwyr pensiwn os oes unrhyw newid i'ch cyfeiriad cartref.

# Rhagor o wybodaeth ac Ymwadiad

Mae'r canllaw hwn ar gyfer aelodau yng Nghymru a Lloegr ac mae'n adlewyrchu darpariaethau'r CPLIL a'r brif ddeddfwriaeth ar adeg cyhoeddi'r adroddiad **(1 Ebrill 2022)**. Gall y Llywodraeth wneud newidiadau i'r brif ddeddfwriaeth ac, ar ôl ymgynghori â phartïon â diddordeb, gallant wneud newidiadau i'r CPLIL yn y dyfodol.

**Ni all y canllaw hwn gynnwys pob amgylchiad personol.** Er enghraifft, nid yw'n cynnwys buddion ymddeoliad salwch sydd heb eu cynyddu. Nid yw ychwaith yn cynnwys hawliau sy'n berthnasol i nifer cyfyngedig o aelodau e.e. rhai y mae cyfanswm eu buddion pensiwn yn fwy na'r Lwfans Oes (£1,073,100 o fis Ebrill 2020) neu y mae cyfanswm eu buddion pensiwn yn cynyddu mewn unrhyw flwyddyn dreth o fwy na'r Lwfans Blynyddol (£40,000 o fis Ebrill 2014), neu'r rheini sy'n destun tâl treth lwfans blynyddol arbennig, y rhai y mae hawliau gwarchodedig yn gymwys iddynt neu'r rhai y mae eu hawliau yn amodol ar Orchymyn Rhannu Pensiwn yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil. Os yw eich buddion pensiwn yn amodol ar Orchymyn Rhannu Pensiynau a gyhoeddwyd gan y Llys ar ôl ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, caiff eich buddion eu lleihau yn unol â'r Gorchymyn Llys neu gytundeb.

Os bydd unrhyw anghydfod dros eich buddion pensiwn, bydd y ddeddfwriaeth briodol yn parhau i fod mewn grym. Nid yw'r canllaw byr hwn yn cyflwyno unrhyw hawliau cytundebol na statudol ac fe'i darperir at ddibenion gwybodaeth yn unig.

## Sut gallaf ddarganfod mwy?

Gallwch cael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o'r GWEFAN AELODAU CPLIL.

Gallwch ymweld â'n gwefan yn: www.gwentpensionfund.co.uk
gallwch hefyd gysylltu â ni: **01495 766266**
Drwy ffôn: **01495 766266** rhwng 9 yb a 5 yh
Drwy e-bost: pensions@torfaen.gov.uk
Yn ysgrifenedig: **Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen), Y Ganolfan Ddinesig**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 6YB**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yw gweinyddwr Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cronfa Bensiwn: https://www.gwentpensionfund.co.uk/media/5vlkn055/privacy-notice-v3-0-11022022.pdf